**ADRODDIAD I'R CABINET**
16 GORFFENNAF 2013

**Aelod Cabinet:** CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS – AELOD CABINET ADNODDAU

**Pwnc:** RHAGLEN GYFALAF 2013/14 - ADOLYGIAD CHWARTER GYNTAF (30 MEHEFIN 2013)

**Swyddog Cyswllt:** DAFYDD L EDWARDS – PENNAETH CYLLID

---

## Y penderfyniad a geisir / Pwrpas yr adroddiad

Adroddir ar adolygiad y chwarter gyntaf (sefyllfa 30 Mehefin 2013) o'r rhaglen gyfalaf, a gofynnir i'r Cabinet ffurfiol 16 Gorffennaf 2013 gymeradwyo'r ariannu addasedig.

---

## Cyflwyniad / Crynodeb

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o broses monitro'r gyllideb 2013/14. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae'r adroddiad mewn 2 rhan:

Rhan 1: Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £108.4m am y 3 blynedd 2013/14 – 2015/16.

Rhan 2: Eglurhad o ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £4.7m ers y gyllideb agoriadol, gyda £1.3m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2012/13 (adroddwyd eisoes ar 11 Mehefin 2013), a £2.5m o'r cynnydd oherwydd ein bod wedi derbyn grantiau ychwanegol.

Y Cabinet sydd wedi'i awdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 1) a'i ariannu (rhan 2).

---

## Prif Gasgliadau:

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw -

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £50m yn 2013/14, gyda £23m wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Llwyddodd y Cyngor i wario ychydig dros £4.6m, sef bron i 10% o'r gyllideb ar gynlluniau cyfalaf yn ystod y chwarter cyntaf o 2013/14, o'i gymharu â 11% yn y cyfnod cyfatebol llynedd.

**Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet ffurfiol gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2013/14 - 2015/16.

**Ystyriaethau perthnasol**

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

**Camau nesaf ac amserlen**

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

---

**Barn yr Aelod Lleol**
Dim yn berthnasol.

---

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Dim i'w ychwanegu i'r adroddiad.

**Y Swyddog Monitro:**
Dim i'w ychwanegu o ran priodoldeb.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwyf wedi cydweithio gyda'r Aelod Cabinet i baratoi'r adroddiad yma ac yn cadarnhau'r cynnwys.

---

**Atodiad**
Adroddiad manwl, rhan 1-2, ar dudalennau 3-5.

## 1 RHAGLEN GYFALAF 2013/14 i 2015/16

**1.1** Gweler isod gymhariaeth o'r rhaglen gyfalaf hyd at ddiwedd Mehefin 2013 yn erbyn y gyllideb wreiddiol:

### SYMUDIAD O'R GYLLIDEB AGORIADOL I DDIWEDD Y CHWARTER CYNTAF

| | CYLLIDEB AGORIADOL | | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIADAU LLITHRIADAU | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | CYFANSWM | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | CYFANSWM | | | |
| ADRAN | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Adnoddau Dynol | 511 | 0 | 0 | 511 | 55 | 449 | 0 | 504 | (7) | (7) | 0 |
| Addysg | 10,390 | 4,504 | 16,163 | 31,057 | 8,169 | 6,805 | 16,163 | 31,137 | 80 | 84 | (4) |
| Cyllid | 59 | 0 | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 | 59 | 0 | 0 | 0 |
| Darparu a Hamdden | 491 | 0 | 0 | 491 | 307 | 301 | 0 | 608 | 117 | 117 | 0 |
| Democratiaeth a Chyfreithiol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Economi a Chymuned | 8,471 | 1,231 | 186 | 9,888 | 7,725 | 2,733 | 100 | 10,558 | 670 | 412 | 258 |
| Gofal Cwsmer – Eiddo | 8,338 | 4,127 | 3,097 | 15,562 | 9,657 | 4,802 | 3,097 | 17,556 | 1,994 | 1,349 | 645 |
| Gofal Cwsmer – Eraill | 1,087 | 920 | 945 | 2,952 | 735 | 1,618 | 945 | 3,298 | 346 | 56 | 290 |
| Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol | 3,265 | 2,000 | 2,000 | 7,265 | 3,015 | 2,000 | 2,000 | 7,015 | (250) | (265) | 15 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 8,763 | 6,443 | 2,603 | 17,809 | 7,920 | 6,982 | 2,603 | 17,505 | (304) | (130) | (174) |
| Rheoleiddio | 8,329 | 8,929 | 162 | 17,420 | 10,835 | 8,434 | 161 | 19,430 | 2,010 | (318) | 2,328 |
| Strategol a Gwella | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Tai Cyngor (Gweddillol) | 0 | 0 | 0 | 0 | 32 | 0 | 0 | 32 | 32 | 32 | 0 |
| Ymgynghoriaeth | 51 | 16 | 18 | 85 | 51 | 16 | 18 | 85 | 0 | 0 | 0 |
| Corfforaethol | 0 | 276 | 382 | 658 | 0 | 276 | 382 | 658 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **49,755** | **28,446** | **25,556** | **103,757** | **48,501** | **34,475** | **25,469** | **108,445** | **4,688** | **1,330** | **3,358** |

1.2 Bu sefyllfa gwir wariant o £4.6miliwn (sydd bron yn 10% o'r gyllideb yn ei gyfanrwydd am 2013/14) hyd at ddiwedd mis Mehefin 2013, o'i gymharu â 11% o'r gyllideb am y cyfnod cyfatebol yn 2012/13.

## 2 NEWIDIADAU I'R FFYNONELLAU ARIANNU

**2.1** Mae cynnydd o £4.688m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf tair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb agoriadol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | CYLLIDEB AGORIADOL | | | ADOLYGIAD DIWEDD MEHEFIN | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIADAU LLITHRIADAU | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | | | |
| | £000 | £000 | £000 | £'000 | £'000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 4,166 | 0 | 0 | 0 |
| Benthyca heb gefnogaeth | 4,518 | 6,396 | 7,453 | 4,209 | 6,690 | 7,452 | (16) | (472) | 456 |
| Grantiau a Chyfraniadau | 23,329 | 14,311 | 7,510 | 25,681 | 15,295 | 7,424 | 3,250 | 772 | 2,478 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 1,470 | 1,096 | 1,680 | 1,573 | 1,096 | 1,680 | 103 | 16 | 87 |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 4,235 | 703 | 3,160 | 4,531 | 721 | 3,160 | 314 | 12 | 302 |
| Cronfa Cyfalaf | 8,719 | 233 | 200 | 4,921 | 4,588 | 200 | 557 | 561 | (4) |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 3,318 | 1,541 | 1,387 | 3,420 | 1,919 | 1,387 | 480 | 441 | 39 |
| **CYFANSWM** | **49,755** | **28,446** | **25,556** | **48,501** | **34,475** | **25,469** | **4,688** | **1,330** | **3,358** |
| **CYFANSWM 3 MLYNEDD** | | | **103,757** | | | **108,445** | | | |

**2.2 Gwir Lithriadau o 2012/13**

Ar gyfer y gyllideb agoriadol eleni fe seiliwyd y lefel llithriadau i 2013/14 ar y sefyllfa a ragwelwyd yn y drydydd chwarter o 2012/13. Adroddwyd i gyfarfod 11 Mehefin o'r Cabinet ar sefyllfa diwedd y flwyddyn 2012/13, a nodwyd pryd hynny roedd lefel y gwir lithriad wedi cynyddu yn y chwarter olaf, fel y manylir uchod yn y golofn 'Addasiadau Llithriadau'. Eto, fel adroddwyd ar 11 Mehefin, nid oes unrhyw golled mewn ariannu i'r Cyngor oherwydd y llithriad yma. Fe eglurir gweddill y newidiadau fel a ganlyn.

**2.3 Benthyca Heb Gefnogaeth**

Cynnydd o £456,000 yn 2013/14 yn y dull yma o ariannu ar gyfer Cynlluniau Rheoli Carbon (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo) sydd yn cael eu hariannu drwy fenthyciad Salix.

**2.4 Grantiau a Chyfraniadau**

Cynnydd net o £2,478,000 yn y dull yma o ariannu yn bennaf oherwydd:

- **Cynllun GwyriAD (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) – £1,031,160 yn 2013/14**
  Taliad unwaith ac am byth gan y Llywodraeth i'r Cyngor ei basio ymlaen i'r contractwr fel cyfraniad ymlaen llaw at wasanaethau, unwaith fydd y cyfleuster yn weithredol.

- **Cynlluniau Taith (Adran Rheoleiddio) - £725,000 yn 2013/14**
  Derbyniwyd ariannu ychwanegol gan Lywodraeth Cymru drwy'r Consortiwm Trafnidiaeth Ranbarthol ar gyfer gwariant ar y prif gynlluniau isod:
    - o Lôn Beicio Pontllyfni i Aberdesach
    - o Gwaith cychwynnol ar Ffordd Caergybi, Bangor (i Lanfairpwll)
    - o A4086 trofeydd y twnel Llanberis

- **Cynlluniau Grant Trafnidiaeth (Adran Rheoleiddio) - £629,000 yn 2013/14**
  Cafwyd cadarnhad fod Llywodraeth Cymru yn mynd i ariannu gwariant uwch o £629,000 drwy grant yn 2013/14.

**2.5 Derbyniadau Cyfalaf**

Cynnydd o £87,000 yn y dull yma o ariannu ar gynlluniau Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor (Adran Gofal Cwsmer)- £87,550 yn 2013/14, sef addasiad i gywiro ariannu hanesyddol ar y cynllun yma – defnyddio derbyniadau cyfalaf adrannol i ariannu elfen o ad-daliad i gronfa (gweler hefyd 2.7 isod).

**2.6 Refeniw Adrannol a Chorfforaethol**

Cynnydd net o £302,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf ar gynlluniau:

- **Cynlluniau Gwastraff (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)** – £173,150 yn 2013/14
  Cyfraniad refeniw tuag at amcan o'r gorwariant ar rai o'r celloedd gwastraff. Mae gwaith yn mynd ymlaen i edrych ar ddyfodol y safleoedd gwastraff, ac yn ddibynnol ar ganlyniad y gwaith yma, hwyrach y bydd modd gwneud cais am drosglwyddiad o ffynhonnell ariannu amgen arall.
- **Pontydd a Waliau Cynnal (Adran Rheoleiddio)** – £125,000 yn 2013/14.
  I ariannu gwaith angenrheidiol yn dilyn difrod gan lifogydd mis Tachwedd 2012.

**2.7 Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill**

Cynnydd net o £39,000 yn y dull yma o ariannu, yn bennaf oherwydd:

- **Cynlluniau Rheoli Carbon – Prosiectau Solar (Adran Gofal Cwsmer – Uned Eiddo)** - £453,870 yn 2013/14 o gronfa wrth gefn penodol (yn amodol ar gymeradwyaeth adroddiad perthnasol sydd hefyd yn cael ei ystyried gan y Cabinet heddiw).
- **Prosiect System Ffon 'VoIP'** (Voice over Internet Protocol) **(Adran Gofal Cwsmer – Uned Technoleg Gwybodaeth)** - £290,620 yn 2013/14 o gronfa wrth gefn penodol.
- **Cerbydau Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol** – lleihad o (£468,320) yn y defnydd o'r Cronfeydd Adnewyddu.
- **Cynlluniau Cynnal a Chadw Adeiladau'r Cyngor (Adran Gofal Cwsmer)** – lleihad o (£200,000) yn y defnydd o gronfa wrth gefn penodol yn 2013/14 (gweler hefyd 2.5 uchod).
- **Cerbydau Adran Rheoleiddio** – lleihad o (£57,120) yn y defnydd o'r Cronfeydd Adnewyddu.

**2.8 Argymhelliad**

**Gofynnir i'r Cabinet dderbyn y rhaglen gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2013/14 i 2015/16, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu berthnasol (para. 2.2 i 2.7 uchod).**